

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

25 MEHEFIN 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

R. S. Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 10:10yb

1. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. **COFNOD PENDERFYNIAD - 11 MAWRTH 2021**

PENDERFYNWYD Ilofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2021 gan ei fod yn gofnod cywir.

3. **GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (DAFEN - FELINFOEL, GOGLEDD LLANELLI) (OSOD TERFYN CYFLYMDER O 20 M.Y.A) GORCHYMYN 2021**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am wrthwynebiad oedd wedi dod i law i'r bwriad i gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar hyd amrywiol strydoedd yng Ngogledd Llanelli.

Rhoddwyd gwybod bod y cynnig hwn yn rhan o Gynllun Peilot Llywodraeth Cymru, lle byddai Llywodraeth Cymru yn talu am y cyllid ar gyfer cyflwyno'r newidiadau i'r terfyn cyflymder. Mae'r terfyn cyflymder o 20mya a gynigir ar gyfer ardal ogleddol Llanelli yn rhan o gyfres o brosiectau peilot ledled Cymru sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a byddai'n llywio deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y wybodaeth am yr ymgynghoriad ynghylch y terfynau cyflymder arfaethedig o 20mya a nododd na gafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan yr ymgynghoreion statudol gan gynnwys y gwasanaethau brys, aelodau lleol, Cyngorau Tref a Gwledig Llanelli a grwpiau rhanddeiliad allweddol.

Dywedwyd bod Pennaeth Gweinyddiaeth a Chyfraith y Cyngor wedi derbyn 1 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori, y manylwyd arno yn yr adroddiad. Ystyriodd a nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y gwrthwynebiad.

Argymhellwyd, yn dilyn rhoi ystyriaeth briodol i'r gwrthwynebiad ac ymateb yr Awdurdod, gymeradwyo'r cynigion, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (Atodiad 1).

PENDERFYNWYD

- 3.1 bod y gwrthwynebiad, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, yn cael eu nodi;**
- 3.2 cymeradwyo'r cynigion fel y manylwyd arnynt yn Hysbysiad Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (Atodiad 1).**

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD